Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Gyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru

Adroddiad Pwyllgor AC (3) 07-08 – Medi 2008

Croesawn y canfyddiadau a dyma ein hymateb i bum argymhelliad yr adroddiad.

Mae argymhellion adroddiad y Pwyllgor Archwilio'n trafod materion yr ydym yn eu hystyried yn rhan o waith paratoi'r Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol.

Yr wyf yn disgwyl i'r gwaith ymgynghori ar y Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol bara tri mis gan ddechrau ym mis Ionawr 2009. Bydd angen wedyn inni asesu'r ymatebion a pharatoi cynlluniau terfynol yn eu sgil. Wedi i'r broses honno gael ei chwblhau, ysgrifennaf at Gadeirydd y Pwyllgor gan nodi sut mae'r argymhellion yn cael eu gweithredu. Fy ngobaith yw imi allu rhoi'r diweddaraf ichi rywbryd tua mis Mai 2009.

i. Yr ydym felly'n cymeradwyo ac yn ail-adrodd argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth y Cynulliad:

a. Osod targedau sy'n bendant, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn berthynol i amser;
b. Sefydlu asesiad sylfaenol cyson a chadarn ar lefel cynghorau o ran effeithlonrwydd ynni;
c. Datblygu fframwaith mesur perfformiad dibynadwy i alluogi i gymariaethau gael eu gwneud rhwng cynghorau, yn cynnwys ymchwilio'n llawn i ddichonolrwydd defnyddio data defnyddio ynni yn y cartref sy'n cael ei gadw gan y cwmnïau ynni; a
d. Monitro ac adrodd ar berfformiad yn effeithiol yn erbyn y targedau.

Argymhelliad wedi'i dderbyn. Ystyriwn weithredu'r argymhellion hyn sy'n ymwneud â Datblygu Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol (Cynllun) ac ymrwymiad ehangach Cymru'n Un sydd â nod o leihau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o 3% y flwyddyn.

Rydym eisoes wedi cynnal gweithdai ledled Cymru fel man cychwyn i ddod ag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y sector llywodraeth leol, yn rhan o gynlluniau'r Cynllun gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â phennu a monitro targedau. Ein nod yw cychwyn ymgynghoriad llwyr erbyn diwedd 2008.

Ysgrifennaf at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan nodi, yn fanwl, sut y gweithredwn yr argymhelliad hwn pan fydd gennym gynlluniau cadarn ar ôl yr ymgynghori.

ii. Argymhellwn, fel rhan o'i gynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni

cenedlaethol newydd fod Llywodraeth y Cynulliad, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn datblygu trefniadau cadarn i sicrhau ei fod yn derbyn y lefel gofynnol o gydweithio gan gynghorau.

Argymhelliad wedi'i dderbyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymo i leihau tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae rhan hollbwysig gydag awdurdodau lleol i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

Rhown ystyriaeth, trwy ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i'r trefniadau mwyaf effeithiol i sicrhau cydweithredu yn ystod cyfnodau paratoi'r Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol.

Ysgrifennaf at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan nodi, yn fanwl, sut y gweithredwn yr argymhelliad hwn pan fydd gennym gynlluniau cadarn ar ôl yr ymgynghori.

iii. Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn asesu effeithiolrwydd y Fforwm DAYC, ac yn datblygu eu cynigion ar sut y gellir gwella cydweithio yng nghyd-destun y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

Argymhelliad wedi'i dderbyn. Rydym wedi cymeradwyo Fforwm DAYC Cymru a'i weithgareddau sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth, rhannu arfer da a chael manteisio ar ffynonellau cyllido ychwanegol.

Rhown ystyriaeth i gynlluniau cydweithio mwy effeithiol yn rhan o'n gwaith ar y Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol.

Ysgrifennaf at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan nodi, yn fanwl, sut y gweithredwn yr argymhelliad hwn pan fydd gennym gynlluniau cadarn ar ôl yr ymgynghori.

iv. Argymhellwn y dylai camau i ddylanwadu ar arferion pobl sy'n byw mewn tai preifat, gyda golwg ar ddefnydd ynni yn y cartref ac arbed ynni, yn cael lle blaenllaw yn y cynllun effeithlonrwydd ac arbedion ynni cenedlaethol newydd.

Argymhelliad wedi'i dderbyn. Edrychwn ni ar hwn ac ymgynghori yn ei gylch yn rhan o'r gwaith ar Gynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol. Un o'r prif faterion inni'u hystyried fydd creu synergedd rhwng ein Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) a Tharged Lleihau Allyriadau Carbon, rhaglen CERT, y cyflenwyr ynni.

Ysgrifennaf at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan nodi, yn fanwl, sut y gweithredwn yr argymhelliad hwn pan fydd gennym gynlluniau cadarn ar ôl yr ymgynghori.

v. Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn gwerthuso effaith ei gynigion ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth ac yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i ddatblygu ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Argymhelliad wedi'i dderbyn. Rydym yn cydnabod yn llwyr bod gwybodaeth gyhoeddus a chyfathrebu â'r cyhoedd yn bwysig o ran gwella effeithlonrwydd ynni a bod angen gwerthuso effeithiolrwydd y pethau hyn yn drylwyr.

Rydym newydd gychwyn ymgyrch gyfathrebu fawr gyda'r nod o roi gwybod i ddeiliaid tai Cymru am gamau syml mae modd iddyn nhw eu cymryd i arbed arian, lleihau eu defnydd o ynni ac o ganlyniad eu hôl troed carbon.

Dyluniwyd yr ymgyrch ar sail ymchwil ar Gymru yn benodol. Rydym wrthi'n ymchwilio i'r ymgyrch (ei chyfnod paratoi a'i chanlyniadau) a'i gwerthuso. Rydym hefyd wedi rhoi sylw i'r pethau wedi'u dysgu o ymgyrchoedd tebyg wedi'u cynnal ledled y DU ac ymgyrchoedd eraill Llywodraeth y Cynulliad sydd â nod o hyrwyddo newid ymddygiad.

Byddwn ni dros gyfnod yn parhau i ddatblygu'r ymgyrch gan ddefnyddio ymchwil a gwerthuso'i heffeithiolrwydd.